

CBAC Polisi Diogelu

Datganiad Polisi

Mae CBAC wedi ymrwymo i roi'r safonau uchaf ar waith wrth ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae CBAC yn gweithio ar sail yr egwyddor mai cyfrifoldeb holl aelodau'r bwrdd, y gweithwyr a'r sawl a benodir, fel arholwyr a safonwyr, yw diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag niwed.

Diffinnir 'Diogelu' a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed fel:

- Diogelu unigolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Atal amharu ar iechyd a datblygiad
- Sicrhau bod plant yn tyfu mewn amgylchiadau sy'n gyson â'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiole

... er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

Egwyddorion y Polisi

Mae CBAC wedi cynnal asesiad risg ac wedi datblygu egwyddorion a chymau gweithredu yn seiliedig ar yr adolygiad o risg. Wrth wraidd y polisi mae gweithdrefnau diogelu mewnol manwl CBAC.

Ein hegwyddorion allweddol yw:

2.1 Mae lles plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn hollbwysig a dyma'r ffactor pwysicaf yn ein proses o wneud penderfyniadau.

2.2 Ni fydd CBAC yn rhoi niwed i unrhyw unigolyn drwy ein prosesau recriwtio. Mae CBAC yn sicrhau bod yr holl staff a phenodedigion perthnasol yn ymgymryd â gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac nad ydynt yn ymweld â chanolfannau tan mae canlyniad boddhaol wedi'i gyrraedd.

2.3 Mae CBAC yn darparu hyfforddiant a gwybodaeth ategol i sicrhau bod yr holl staff a'r sawl a benodir yn deall ein gweithdrefnau diogelu a'r gofyn i adrodd am unrhyw bryderon.

2.4 Mae CBAC yn disgwyl i'r holl weithwyr a'r sawl a benodir gadw at god ymddygiad wrth ymweld â chanolfannau.

2.5 Gofynnir i'r holl weithwyr a'r sawl a benodir i ymddwyn yn sensitif ac i gadw at gyfrinachedd llwyr wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud â diogelu.

2.6 Cedwir yr holl ddata a'r wybodaeth sy'n ymwneud â diogelu yn ddiogel i sicrhau cyfrinachedd bob amser. Mae CBAC wedi asesu ein gweithdrefnau ynghylch storio gwybodaeth diogelu yn erbyn gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), sy'n weithredol o 25 Mai 2018. Mae CBAC hefyd wedi asesu ac adolygu ei weithdrefn ar gyfer rhannu gwybodaeth â chanolfannau.

2.7 Mae Bwrdd ac uwch dîm rheoli CBAC yn sicrhau bod y Weithdrefn Diogelu yn cael ei adolygu ac yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol, drwy'r adroddiadau a ddarperir.

2.8 Mae CBAC yn ystyried y testunau i'w hastudio a'u perfformio yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dysgwr.

2.9 Bydd CBAC yn hysbysu Pennaeth y Ganolfan o bryderon ynghylch lles a diogelwch dysgwr sy'n deillio o unrhyw ddatgeliadau a wnaed, a all gynnwys manylion a roddir yn eu gwaith ysgrifenedig neu arall.

Monitro ac adolygu'r polisi

Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn flynyddol o leiaf, neu'n fwy aml os oes newid busnes sylweddol allanol neu fewnol sy'n effeithio ar y polisi. Rhoddir manylion yr adolygiad i fwrdd ac uwch reolwyr CBAC.

Dogfennau Cysylltiedig

CGC Egwyddorion ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed.

[CGC – Egwyddorion ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.](#)

Gwybodaeth Bellach

Am ymholiadau ynghylch diogelu, e-bostiwch ffion.lloyd@wjec.co.uk neu ffoniwch **029 2026 5121**.